IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 55

# TRAFFIG FFYRDD

# Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 23 (Rogiet), Cas-Gwent I Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 40 Mya Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *16 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 23 (Rogiet), Cas-gwent i Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mawrth 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 55

# ROAD TRAFFIC

# The M48 Motorway (Junction 23 (Rogiet), Chepstow, to Junction 2 (Newhouse Interchange), Monmouthshire) (Temporary 40 mph Speed limit) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 March 2026* |
| *Coming into force* | *16 March 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M48 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the M48 Motorway (Junction 23 (Rogiet), Chepstow, to Junction 2 (Newhouse Interchange), Monmouthshire) (Temporary 40mph Speed Limit) Order 2026 and this Order comes into force on 16 March 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 16 Mawrth 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M48 Llundain i Abergwaun;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiad a chyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**4.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r draffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(a) any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" ("*lluoedd arbennig*") means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the motorway" ("*y draffordd*") means the M48 London to Fishguard Motorway;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 00:01 hours on 16 March 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

**Prohibition and restriction**

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order.

**Suspension**

**4.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the motorway are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**Cymhwyso**

**5.**—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Mawrth 2026



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**
**Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23 yr M4 (Rogiet), hyd at bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 yr M48 (Cyfnewidfa Newhouse).

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 yr M48 (Cyfnewidfa Newhouse), hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin i'r M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet).

3. Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 2 yr M48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse.

4. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 2 yr M48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â'r brif

**Application**

**5.**—(1) The restriction in article 3 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle

**Duration of this Order**

**6.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Minister for Transport and North Wales one of the Welsh Ministers.

Dated 12 March 2026



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE**
**Temporary 40 mph Speed Limit**

1. The length of the M4 westbound carriageway that extends from the physical nosing of the westbound exit slip road at M4 Junction 23 (Rogiet), to a point 180 metres east of the physical nosing of the eastbound entry slip road at M48 Junction 2, (Newhouse Interchange).

2. The length of the M48 eastbound carriageway that extends from a point 180 metres east of the physical nosing of the eastbound entry slip road at M48 Junction 2 (Newhouse Interchange), to the physical nosing of the westbound entry slip road onto the M4 at Junction 23 (Rogiet).

3. The length of the M48 Junction 2 eastbound exit slip road that extends from its junction with the main eastbound carriageway to a point 250 metres west of its junction with Newhouse Roundabout.

4. The length of the M48 Junction 2 eastbound entry slip road that extends from its junction

gerbytffordd tua'r dwyrain.

5. Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 2 yr M48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse.

6. Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 2 yr M48 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Newhouse hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

with Newhouse Roundabout to its junction with the main eastbound carriageway.

5. The length of the M48 Junction 2 westbound exit slip road that extends from its junction with the main westbound carriageway to a point 200 metres east of its junction with Newhouse Roundabout.

6. The length of the M48 Junction 2 westbound entry slip road that extends from its junction with Newhouse Roundabout to its junction with the main westbound carriageway.